

Cylchlythyr | Circular

Cymorth cyflogadwyedd wedi'i dargedu i fyfyrwyr – cadarnhad o'r trefniadau

Dyddiad: 19 Gorffennaf 2022
Cyfeirnod: W22/21HE
At: Benaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru
Penaethiaid colegau addysg bellach a gyllidir yn uniongyrchol
yng Nghymru
Ymateb erbyn: 9 Medi 2022
Cyswllt: Enw: Emma Mock
Ffôn: 029 2085 9742
E-bost: emma.mock@hefcw.ac.uk

Mae'r cylchlythyr hwn yn crynhoi canlyniadau'r ymgynghoriad [W22/08HE: Ymgynghoriad ar gymorth cyflogadwyedd wedi'i dargedu i fyfyrwyr](#), ac yn cadarnhau trefniadau ar gyfer y gronfa o £1.7m yn 2022/23, gan gynnwys y broses, dyraniadau ac amserlen ar gyfer taliadau a monitro.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch
mewn fformat hygyrch arall,
anfonwch e-bost i info@hefcw.ac.uk.



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cefndir

1. Mae CCAUC wedi trefnu bod cyllid ar gael ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23 i alluogi darparwyr AU i barhau i roi cymorth cyflogadwyedd wedi'i dargedu i fyfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol neu o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is, yn dilyn diwedd y rhaglen [GO Wales: Cyflawni drwy Brofiad Gwaith](#) a gyllidwyd o Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF).
2. Mae'r cylchlythyr hwn yn crynhoi canlyniadau'r ymgynghoriad [W22/08HE: Ymgynghoriad ar gymorth cyflogadwyedd wedi'i dargedu i fyfyrwyr](#), ac yn cadarnhau trefniadau ar gyfer y gronfa o £1.7m yn 2022/23, gan gynnwys y broses, dyraniadau ac amserlen ar gyfer taliadau a monitro.

Nod y cyllid

3. Nod y cyllid yw cefnogi cyflogadwyedd myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch neu o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is sydd leiaf tebygol o brofi deilliannau cyflogaeth cadarnhaol pan ydynt yn graddio.
4. Dylai defnydd darparwyr o'r cyllid amcanu at adeiladu ar y gweithgareddau a gyflawnwyd trwy raglen [GO Wales: Cyflawni drwy Brofiad Gwaith](#), a rhoi cymorth cyflogadwyedd i'r lleiafrif o fyfyrwyr y mae arnynt angen cynhorthwy ychwanegol y tu hwnt i'r hyn a gynigir trwy ddarpariaeth graidd i'r corff myfyrwyr cyfan, o fewn y cwricwlwm a'r tu allan iddo.
5. Dylai'r cymorth fod wedi'i dargedu at fyfyrwyr sydd bellaf o'r farchnad lafur, a helpu i'w harfogi i gael deilliant cadarnhaol pan fyddant yn graddio, i'w helpu i gyflawni eu potensial, cyrraedd eu nodau a gwireddu eu dyheadau.

Ymatebion i'r ymgynghoriad

6. Cawsom 11 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Hefyd, fe gynhaliom ni ddigwyddiad ymgynghori ar 6 Mai 2022 a roddodd gyfle i bartïon â buddiant drafod yr ymgynghoriad a gofyn cwestiynau cyn cyflwyno'r ymatebion.
7. Ceir crynodeb byr o'r ymatebion i bob cwestiwn, ynghyd â'r canlyniadau, isod. Mae **Atodiad A** yn darparu dadansoddiad manylach o'r ymatebion a gafwyd, ynghyd â rhestr o'r ymatebwyr.

Dull

C1. *Ydych chi'n cytuno â'r dull a gynigir?*

8. Roedd yr holl ymatebwyr yn cytuno at ei gilydd â'r dull a gynigir, fel a nodwyd yng nghylchlythyr [W22/08HE](#), gyda'r prif bwyntiau wedi'u hailadrodd ym mharagraffau 10 – 15 isod. Roedd ymatebwyr yn croesawu'r ffaith bod y gweithgarwch hwn yn

gyson â blaenoriaethau strategol sefydliadol, a'r ffocws parhaus ar gydweithio rhwng darparwyr.

9. Codwyd rhai pwyntiau penodol ar gyfer ystyriaeth ac eglurhad. Caiff ein hymatebion ni i'r rhain eu cyflwyno isod.
- a. Cafodd y dull a nodwyd yn y cylchlythyr ar gyfer darparu cyllid i SAB a gyllidir yn uniongyrchol ei gwestiynu. Rydym wedi ystyried hyn, ac wedi diwygio ein dull (cyfeirier at baragraffau 26 a 43).
 - b. Nododd un ymatebydd yr hoffai gael cadarnhad y gallai profiad gwaith gael ei ddiffinio gan y sefydliad ac nad oedd disgwyl i'r holl fyfyrwyr a gefnogir wneud profiad gwaith. Rydym yn cadarnhau nad ydym yn disgwyl i'r holl fyfyrwyr a gefnogir wneud profiad gwaith; darparwyr sydd i benderfynu pa weithgaredd a ddarperir ar gyfer pob myfyriwr, yn seiliedig ar anghenion ac amgylchiadau'r myfyriwr. Rydym yn disgwyl i brofiad gwaith gael ei gynnig i fyfyrwyr lle byddai budd amlwg (e.e. lle byddai profiad gwaith yn rhoi'r cyfle a'r hyder i'r myfyriwr roi cynnig ar rôl, neu os nad yw'r myfyriwr yn gwneud profiad gwaith fel rhan o'i gwrs). Darparwyr sydd i ddiffinio profiad gwaith hefyd, er y byddem yn disgwyl i'r gweithgarwch hwn fod yn gyson â'r nodau y cyfeirir atynt ym mharagraff 15.
 - c. Gofynnodd un ymatebydd i ni egluro i ba raddau y gallai myfyrwyr rhyngwladol gael cymorth. Penderfyniad i bob darparwr yw pa fyfyrwyr y mae arnynt angen y cymorth ychwanegol hwn, ar yr amod y defnyddir y cyllid i gefnogi myfyrwyr sydd bellaf o'r farchnad lafur a myfyrwyr yng ngrwpiau â blaenoriaeth darparwyr. Yn y tymor hwy, byddem yn disgwyl gweld effaith y cyllid hwn yn cael ei hadlewyrchu mewn bwch llai rhwng myfyrwyr mewn gwahanol garfannau sy'n dweud iddynt brofi deilliannau cadarnhaol trwy'r arolwg Deilliannau Graddedigion.
 - d. Gofynnodd un darparwr am ystyriaeth benodol i gymorth ar gyfer prentisiaid a gweithgarwch prentisiaeth yn y dull hwn neu mewn dulliau yn y dyfodol. Gan bod y cyllid hwn wedi'i fwriadu ar gyfer y myfyrwyr sydd bellaf o'r farchnad lafur a chan bod prentisiaid yn cael eu cyflogi mewn rôl lle gallant gymhwyso a datblygu eu sgiliau, rydym yn ystyried bod hyn y tu hwnt i'r cwmpas ar gyfer cyllid. Rydym yn disgwyl bod prentisiaid yn cael cymorth i gymhwyso a datblygu eu sgiliau yn eu rolau gwaith gan eu cyflogwr a thrwy ddarpariaeth gyrfaoedd a chyflogadwyedd graidd eu darparwyr.
 - e. Roedd argymhelliad gan un darparwr i gynnwys cyfeiriad penodol at niwroamrywiaeth yn y rhestr bosibl o fyfyrwyr o fewn y cwmpas ar gyfer cymorth, gan nad yw'r cyflyrau hyn wastad yn cael eu cyfrif fel anabledd. Nid yw'r rhestr ym mharagraff 11 yn gynhwysfawr a darparwyr sydd i benderfynu pa fyfyrwyr y byddant yn rhoi cymorth iddynt. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y pwynt a wnaed ac rydym wedi cynnwys hyn yn benodol yn y rhestr o fyfyrwyr a allai fod o fewn y cwmpas ar gyfer cymorth.
10. **Canlyniad:** Rydym felly'n cadarnhau y dylai'r cymorth:
- Fod wedi'i dargedu, gan anelu i ddatblygu cyflogadwyedd myfyrwyr mewn grwpiau ehangu mynediad sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur, a'r rhai sy'n brin o gyfalaf cymdeithasol ac ariannol;
 - Nodi rhwystrau o ran ymgysylltu, fel bod y cymorth wedi'i dargedu'n briodol;

- Bod yn hyblyg ac wedi'i arwain gan fyfyrwyr, wedi'i gynllunio'n arbennig i gyd-fynd ag amgylchiadau a gofynion y myfyriwr unigol;
- Meithrin hyder a grymuso'r myfyrwyr a gefnogir i berchnogi eu cyflogadwyedd;
- Adeiladu ar weithgarwch darparwyr i ehangu mynediad at addysg uwch, drwy gefnogi myfyrwyr yn y grwpiau targed i sicrhau cymaint ag sy'n bosibl o gyfleoedd am ddeiliant cyflogaeth cadarnhaol;
- Bod yn rhan o ddull cydgysylltiedig o ddatblygu cyflogadwyedd y myfyrwyr, sy'n ystyriol o'u llesiant ymhlith ystyriaethau eraill;
- Bod wedi'i ddatblygu a'i ddarparu mewn cydweithrediad â phartneriaid fel gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr, Undebau Myfyrwyr a chyflogwyr;
- Sicrhau ei fod yn ystyriol o safbwyntiau a phrofiadau'r myfyrwyr;
- Sicrhau cynhwysiant digidol, h.y. na chaiff unrhyw fyfyrwr ei eithrio oherwydd tlodi digidol;
- Bod o natur ataliol yn bennaf trwy nodi a chefnogi'r myfyrwyr y mae angen y cymorth cyflogadwyedd ychwanegol hwn arnynt cyn iddynt adael addysg uwch (fodd bynnag, gweler paragraffau 18 – 22 mewn perthynas ag estyn y cymorth i nifer gyfyngedig o raddedigion).

11. Bydd y cyllid yn cefnogi unigolion sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol¹ neu o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn AU sy'n cynnwys, ymhlith eraill:

- Myfyrwyr anabl
- Myfyrwyr â chyflwr iechyd meddwl;
- Myfyrwyr niwroamrywiol (er enghraifft awtistiaeth, dyslecsia, dyspracsia, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD))
- Myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio oddi wrth eu teuluoedd
- Myfyrwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal
- Myfyrwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol²
- Myfyrwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu, gan gynnwys cyfrifoldebau rhiant
- Myfyrwyr sy'n ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches
- Myfyrwyr o ardal o amddifadedd (h.y. dau gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC))
- Myfyrwyr o ardal lle ceir lefel isel o gyfranogiad mewn AU (h.y. dau gwintel isaf POLAR 4)
- Myfyrwyr o deuluoedd ar incwm isel
- Myfyrwyr sydd yn aelod cyntaf o'r teulu i fynd i brifysgol
- Myfyrwyr sy'n nodi eu bod yn LHDTC+
- Myfyrwyr o gefndiroedd Sipsiwn neu Deithwyr

¹ Mae Cyngor CCAUC wedi ymrwmo i weithredu yn ysbryd y [Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol](#)

² Mae CCAUC wedi nodi y bydd disgwyl i sefydliadau a reoleiddir lofnodi Siarter Cydraddoldeb Hiliol erbyn mis Ebrill 2022 i ddangos eu bod yn ymrwmo i gefnogi'r grŵp hwn o fyfyrwyr a staff. Gweler Cylchlythyr [W22/05HE: Ymgynghoriad ar gyllid i gefnogi cydraddoldeb hiliol mewn addysg uwch.](#)

- Myfyrwyr sy'n cymudo, h.y. myfyrwyr sy'n byw gartref ac yn teithio bob dydd i astudio yn eu darparwr addysg uwch
12. Mae gofyn i ddarparwyr nodi eu grwpiau â blaenoriaeth yn eu Cynlluniau Cyflawni. Rydym yn disgwyl i'r rhain fod yn gyson â'r rhai a nodir yng nghynlluniau mynediad a ffioedd sefydliadau a reoleiddir. Dylai'r holl fyfyrwyr a gefnogir nodi bod ganddynt o leiaf un o'r nodweddion a bennir yng Nghynlluniau Cyflawni darparwyr.
 13. Dylid defnyddio'r cyllid i gefnogi myfyrwyr o bob oed, sy'n astudio ar sail lawn-amser neu ran-amser ar bob lefel AU, a'i dargedu at fyfyrwyr sydd bellaf o'r farchnad lafur y mae arnynt angen cymorth cyflogadwyedd ychwanegol.
 14. Bydd gweithgarwch sefydliadol wedi'i nodi mewn Cynllun Cyflawni (templod yn **Atodiad B**). Fodd bynnag, rydym yn disgwyl i'r cymorth gynnwys y canlynol, o leiaf:
 - mentora;
 - darpariaeth gyfunol sy'n cynnwys ystod o weithgareddau cyflogadwyedd, gan gynnwys cymorth entrepreneuriaeth;
 - cyfeirio / cymorth i gael mynediad at ddarpariaeth graidd pob prifysgol o ran cyflogadwyedd, cyfarwyddyd gyrfaoedd, menter a llesiant;
 - darparu cyllid ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â datblygu cyflogadwyedd a / neu brofiad gwaith i sicrhau nad yw cyllid yn rhwystro i gael budd o'r cymorth;
 - profiad gwaith, o wahanol hyd a fformatau.
 15. Bydd profiad gwaith yn rhoi cyfle i fyfyrwyr nad oes ganddynt o bosibl y cyfalaf cymdeithasol neu ariannol i gael profiad ymarferol a datblygu cysylltiadau â chyflogwyr. Yn ogystal â hynny, dylai helpu darparwyr addysg uwch i barhau i ddangos i gyflogwyr beth yw manteision bod â gweithlu mwy amrywiol. Mae hwn yn ddisgwyliad allweddol, a dylid cynnwys amcangyfrif o nifer y myfyrwyr sy'n cael profiad gwaith yn y Cynllun Cyflawni, gyda'r niferoedd gwirioneddol yn cael eu nodi yn yr Adroddiad Monitro.

Mesurau Perfformiad

C2: *A yw'n briodol defnyddio nifer y myfyrwyr sy'n ystyried bod eu cyflogadwyedd wedi gwella o ganlyniad i'r cymorth fel dull o fesur llwyddiant? Pa fesurau perfformiad eraill y gellid eu defnyddio i fesur effaith y cyllid?*

16. Roedd pawb ond un o'r ymatebwyr yn cytuno bod hwn yn fesur perfformiad priodol. Cynigiwyd ystod o fesurau eraill, gan gynnwys nifer y myfyrwyr y mae eu hyder yn cynyddu o ganlyniad i'r cymorth, nifer y myfyrwyr sy'n camu ymlaen i leoliadau am dâl neu'n sicrhau gwaith am dâl, nifer yr ymyriadau a / neu'r apwyntiadau a gwblhawyd gan y myfyriwr, a hynt myfyrwyr fel a ddangosir gan y data cofrestru gyrfaoedd. Amlygodd ychydig o ymatebwyr y dylai'r data ynghylch Deilliannau Graddedigion, yn y pen draw, adlewyrchu effaith y cyllid ar ffurf deilliannau gwell i fyfyrwyr o'r grwpiau â blaenoriaeth a gefnogwyd.
17. **Canlyniad:** Rydym yn cadarnhau y bydd yn ofynnol i bob darparwr nodi nifer y myfyrwyr sy'n ystyried bod eu cyflogadwyedd wedi gwella, a bydd hyn yn cael ei

ystyried fel y mesur allweddol o lwyddiant. Felly mae disgwyl i ddarparwyr ddefnyddio offeryn i fesur hyn. Bydd yn ofynnol hefyd i ddarparwyr lunio adroddiad ar nifer y myfyrwyr a gefnogwyd yn ôl nodweddion demograffig. Gan y bydd y gweithgaredd a gynigir yn cael ei bennu gan bob darparwr, anogir darparwyr i ddefnyddio ystod o fesurau eraill i asesu effaith eu gweithgareddau ar lefel sefydliadol, y dylid eu nodi yn yr Adroddiad Monitro, ond na fyddant yn cael eu pennu ar lefel sector ar y cam hwn.

Cwmpas i gefnogi graddedigion

C3: *Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i roi cymorth i nifer neilltuedig o unigolion am gyfnod cyfyngedig ar ôl graddio? Os ydych chi, a yw 10% o gyfanswm yr unigolion a gefnogir yn briodol ac a yw 15 mis ar ôl graddio yn derfyn amser addas i raddedigion allu derbyn y cymorth hwn?*

18. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i gefnogi nifer neilltuedig o unigolion am gyfnod cyfyngedig ar ôl graddio. Amlygodd rhai ymatebwyr na ddylai hyn ddyblygu cymorth o'r Gronfa Cymorth i Raddedigion, lle mae darparwyr yn rhoi hwn i raddedigion. Roedd cytundeb at ei gilydd bod cyfyngu hyn i uchafswm o 10% o'r holl unigolion sy'n cael cymorth yn rhesymol, gan mai dim ond ar nifer fach y dylai fod angen cymorth ar ôl graddio ac y byddai'n cadw'r ffocws ar fyfyrwyr, er bod un ymatebydd wedi dynodi y byddai'n well ganddynt fod â'r hyblygrwydd i wneud y penderfyniad yn ôl y gofyn.
19. Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr yn cytuno bod cefnogi graddedig am hyd at 15 mis ar ôl graddio i'w weld yn ffrâm amser resymol, gan bod hynny'n gyson â graddfeydd amser yr arolwg Deilliannau Graddedigion. Dywedodd un ymatebydd y byddai o fudd cadw hyblygrwydd i roi estyniad y tu hwnt i'r ffrâm amser o 15 mis pe bai angen. Awgrymodd un arall y gallai'r graddedig gael ei gyfeirio yn ystod y ffrâm amser o 15 mis at gymorth cyflogadwyedd yn eu cymuned yn barod ar gyfer diwedd y cymorth, ac y gellid ymgorffori hyn fel rhan o gynllun gweithredu unigolyn o'r dechrau un i sicrhau bod eu disgwyliadau'n cael eu rheoli'n dda. Awgrymodd ychydig o ymatebwyr y gellid cynnig y cymorth am hyd at dair blynedd, i fod yn gyson â'r cymorth arall a gynigir i raddedigion.
20. Cafwyd ychydig o geisiadau am eglurhad mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Caiff ein hymatebion i'r rhain eu crynhoi isod:
 - a. Byddai'r cynnig i gefnogi nifer gyfyngedig o raddedigion yn galluogi darparwyr i weithio gydag unigolion y gallai fod arnynt angen y cymorth hwn ar ôl graddio na fyddent o bosibl, oherwydd eu hamgylchiadau, wedi gallu ymgysylltu â'r cymorth tra'r oeddent yn astudio. Felly, nid yw'n ofynnol bod unigolion wedi'u cofrestru ar gyfer y cymorth hwn cyn graddio.
 - b. Bydd y ffrâm amser a'r cyfyngiad o ddim mwy na 10% yn cael eu gwerthuso'n barhaus. Bydd yn ofynnol i ddarparwyr nodi canran y graddedigion y maent wedi'u cefnogi yn yr Adroddiad Monitro.
21. **Canlyniad:** Pe bai darparwyr yn dymuno cefnogi unigolion sydd wedi graddio sydd bellaf o'r farchnad lafur ac angen y cymorth hwn, yna gallant wneud hynny, ar yr amod nad yw canran y graddedigion a gefnogir yn fwy na 10% o gyfanswm

yr unigolion a gefnogir a bod yr unigolion yn cael eu cefnogi dim ond am hyd at 15 mis ar ôl iddynt raddio. Ar ôl yr adeg hon dylid eu cyfeirio at ddarpariaeth arall. Ar ôl y flwyddyn gyntaf o gyflawni, byddwn yn asesu effaith cyfyngu ar nifer y graddedigion a ffrâm amser y cymorth.

22. Cyfrifoldeb pob darparwr yw sicrhau bod yr unigolyn yn cael budd o'r cymorth mwyaf priodol, boed hwnnw'n cael ei gynnig trwy'r Gronfa Cymorth i Raddedigion (er ein bod yn disgwyl gorgyffwrdd cyfyngedig mewn graddfeydd amser gyda'r Gronfa Cymorth i Raddedigion gan ei bod yn para tan ddiwedd mis Gorffennaf 2023, tra bo'r gronfa hon wedi'i bwriadu i fod yn un gylchol), gweithgareddau eraill a gynigir gan y darparwr, neu weithgareddau a gynigir gan sefydliadau eraill (e.e. Canolfan Byd Gwaith). Lle mae darparwyr yn rhoi cymorth o'r Gronfa Cymorth i Raddedigion i'w graddedigion, mae'n ofynnol iddynt sicrhau nad oes dyblygu rhwng y Gronfa Cymorth i Raddedigion a'r gweithgarwch hwn, a dim ond yn erbyn un ffrwd gyllido y dylent adrodd ar unigolion.

Dyraniadau cyllid

C4: *Ydych chi'n cytuno â'r model cyllido a gynigir? Esboniwch eich ymateb, gan awgrymu model arall os nad ydych chi'n cytuno.*

23. Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr yn cytuno â'r model cyllido. O'r ymatebwyr nad oeddent yn cytuno, amlygodd un nad oedd y model yn cydnabod cyflawniad ar raglen GO Wales: Cyflawni drwy Brofiad Gwaith a gyllidwyd o Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF). Awgrymodd ymatebydd arall hefyd fod cyfran o'r cyllid yn cael ei rhannu yn ôl perfformiad ar raglen GO Wales a gyllidwyd o Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) gan y gallai hyn helpu i gael yr effaith fwyaf posibl o'r cyllid.
24. Nodwyd rhai materion gan ymatebwyr mewn perthynas â'r dull ar gyfer cyllido myfyrwyr AU mewn colegau AB a gyllidir yn uniongyrchol, a oedd yn creu cymhlethdodau ychwanegol i golegau o ran yr angen i wahaniaethu rhwng myfyrwyr a gyllidir yn uniongyrchol a myfyrwyr breiniol. Hefyd, amlygodd un ymatebydd y gallai'r dull arfaethedig arwain at gyllid anghymesur ar gyfer myfyrwyr AU mewn AB gan y gallai rhai colegau AB gael cyllid ychwanegol gan SAU sy'n bartneriaid, gan ddibynnu ar nifer y myfyrwyr breiniol mewn coleg AB a dull y SAU sy'n bartner.
25. **Canlyniad:** Mae gan raglen GO Wales a gyllidwyd o Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) feini prawf cymhwysra caeth, sydd wedi cael effeithiau gwahaniaethol ar ddarparwyr. Roedd y model cyllido a gynigir ar gyfer y rhaglen newydd hon yn adlewyrchu'r ffaith bod y cyfyngiadau hyn wedi cael eu gwaredu, ac mai diben y cyllid hwn yw cefnogi myfyrwyr sydd bellaf o'r farchnad lafur ac angen y cymorth cyflogadwyedd ychwanegol, ni waeth beth fo'u hoedran na'u dull astudio. Mae'r model yn seiliedig ar gyfran darparwr o gyfanswm y myfyrwyr ehangu mynediad y gellir eu cyllido sy'n astudio yn ôl dwyster o >50%, fel a gofnodwyd ar HESA ac a wiriwyd gan ddarparwyr. Rydym felly'n cadarnhau y bydd cyllid yn cael ei ddyrannu i SAU gan ddefnyddio'r model hwn. Caiff dyraniadau eu cadarnhau yn nhabl 1 ym mharagraff 28.

26. Rydym wedi ystyried pwyntiau a godwyd mewn perthynas â myfyrwyr AU mewn AB a gyllidir yn uniongyrchol, ac wedi ailystyried ein dull. Yn lle bod pob SAB a gyllidir yn uniongyrchol yn cael llinell sylfaen gyfartal o gyllid, bydd cyfanswm pot o £75k ar gyfer SAB a gyllidir yn uniongyrchol yn cael ei glustnodi a'i ddyrannu mewn ffordd sy'n rhoi anogaeth i gydweithio wrth ddatblygu'r ddarpariaeth hon a threialu ar gyfer myfyrwyr AU mewn AB a gyllidir yn uniongyrchol. Mae paragraff 43 yn nodi'r dull ar gyfer myfyrwyr AU mewn AB.
27. Cadarnhawyd mai £1.7m yw cyfanswm y gyllideb sydd ar gael i gefnogi'r gweithgarwch newydd am y cyfnod o 1 Tachwedd 2022 tan 31 Gorffennaf 2023, yn seiliedig ar yr amcanestyniadau diweddaraf o wariant ar y rhaglen a gyllidwyd o Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) a'r gofyniad o ran cyllid cyfatebol ar gyfer CCAUC. Os yw'r lefelau gwariant terfynol ar y rhaglen a gyllidwyd o Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) yn is nag a broffiliwyd a bod ymrwymiad cyllid cyfatebol CCAUC yn is o ganlyniad, yna bydd cyllid nas defnyddiwyd yn cael ei ychwanegu at ddyraniadau darparwyr yn unol â'r fethodoleg gyllido.
28. Caiff y dyraniadau eu cadarnhau yn nhabl 1:

Tabl 1: Dyraniadau a gadarnhawyd³

Darparwr	Dyraniad (£)
Prifysgol Aberystwyth	105,927
Prifysgol Bangor	113,979
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	168,307
Prifysgol Caerdydd	300,000
Y Brifysgol Agored yng Nghymru	112,493
Prifysgol Abertawe	280,904
Prifysgol De Cymru	300,000
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	143,390
Prifysgol Glyndŵr Wrecsam	100,000
SAB a gyllidir yn uniongyrchol	75,000
Cyfanswm	1,700,000

Enw brand GO Wales

C5: A ddylid cadw enw brand GO Wales ar raddfa genedlaethol, i fyfyrwyr ac/neu i gyflogwyr?

29. Nid oedd consensws clir ynghylch y cwestiwn a ddylid cadw enw brand GO Wales. Amlygodd nifer o ymatebwyr y gallai brofi'n broblemus cadw brand cenedlaethol pan allai'r arlwy ym mhob darparwr amrywio. Ymatebodd eraill gan ddweud y gallai cadw'r brand ar gyfer gweithgarwch gyda myfyrwyr atal myfyrwyr rhag cyfranogi, a hwythau'n ofni eu bod yn cael eu labelu fel rhai ac arnynt angen cymorth ychwanegol. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn cefnogi'r syniad o

³ Caiff y fethodoleg hon ei hegluro yng [W22/08HE: Ymgynghoriad ar gymorth cyflogadwyedd wedi'i dargedu i fyfyrwyr](#).

frand cenedlaethol ar gyfer y gweithgarwch gyda chyflogwyr ac ar gyfer y cydweithio traws-sector. Awgrymodd ychydig o ymatebwyr eraill y byddai o gymorth ailfrandio'r rhaglen, i ddynodi newid o'r rhaglen a gyllidwyd o Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) a gweithgarwch newydd sy'n cynnwys myfyrwyr AU mewn AB yn benodol.

30. **Canlyniad:** Gan nad oes consensws clir ynghylch y cwestiwn hwn, byddwn yn cadw brand GO Wales am y flwyddyn gyntaf o weithgarwch ar gyfer gweithgarwch allanol, h.y. ar gyfer ymgysylltu â chyflogwyr a'r cydweithio traws-sector. Mae'r brand yn adnabyddus ymhlith cyflogwyr, ac fe allai cadw brand cenedlaethol helpu i reoli ymgysylltiad cyflogwyr, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae mwy nag un darparwr. Gan gydnabod y pwyntiau a wnaed yn yr ymatebion, ni fyddwn yn ei gwneud yn ofynnol defnyddio'r brand ar gyfer gweithgarwch gyda myfyrwyr. Dylai hyn helpu i integreiddio'r gweithgarwch â darpariaeth graidd hefyd.
31. Byddwn yn darparu canllawiau a chymorth ar gyfer darparwyr ynghylch defnyddio enw brand GO Wales. Ar ôl y flwyddyn gyntaf, byddwn yn asesu pa un a fu budd o ran cadw'r brand ar gyfer y gweithgarwch allanol a gallem ystyried ymarfer ailfrandio ar yr adeg honno.

Effeithiau anfwriadol neu negyddol

C6: *A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol neu effeithiau negyddol yn gysylltiedig â chynigion yr ymgynghoriad hwn?*

32. Nodwyd rhai canlyniadau anfwriadol ac effeithiau negyddol. Y brif effaith negyddol, a enwyd gan bedwar ymatebydd, oedd natur fyrdymor y cyllid. Cafodd hyn ei nodi fel her gan ymatebwyr eraill mewn ymatebion i gwestiynau eraill hefyd. Amlygwyd y gallai natur fyrdymor y cyllid effeithio ar y tebygolrwydd o ddenu a chadw staff, nad yw'n rhoi cymorth cynaliadwy ac y gall fod yn broblemus mewn perthynas â gweithgarwch gyda chyflogwyr.
33. **Canlyniad:** Rydym yn cydnabod yr heriau a achosir gan gyllid byrdymor a ddisgrifiwyd yn yr ymatebion. Mae CCAUC yn ystyried y cyllid hwn fel eitem gylchol, a gaiff ei chynnal ar lefel debyg o ran y gyllideb ar y cyfan ym flwyddyn academaidd 23/24, ond dim ond unwaith y mae cyllideb gyffredinol CCAUC ar gyfer blwyddyn academaidd 23/24 wedi dod i law y gellir cadarnhau hyn. Mae hefyd yn amodol ar y broses bontio o CCAUC i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY).
34. Mae canlyniad negyddol pellach a nodwyd yn codi o ganlyniad i ddiwedd y rhaglen a gyllidwyd o Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF). Ar y rhaglen, mae'r holl sefydliadau'n gallu defnyddio a phoblogi cronfa ddata o gyflogwyr a grëwyd yn ganolog gan CCAUC, fel rheolydd data'r rhaglen. Heb adnodd o'r fath, gall fod cystadleuaeth rhwng darparwyr.
35. **Canlyniad:** Gan na fydd angen i CCAUC gadw data sy'n ymwneud ag unigolion na chyflogwyr sy'n cael budd o'r gweithgarwch hwn mwyach, cyfrifoldeb darparwyr fydd canfod sut orau i reoli perthnasoedd â chyflogwyr a gweithgarwch

cydweithredol. Rydym yn disgwyl i ddarparwyr gydweithio i ganfod ffyrdd o leddfu unrhyw agweddau ar gystadleuaeth a pharhau â'r ffordd gadarnhaol o weithio a feithrinwyd dros gyfnod y rhaglen a gyllidwyd o Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF). Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl ddarparwyr ddisgrifio yn eu Cynlluniau Cyflawni sut y byddant yn cydweithio gyda darparwyr eraill ar draws y sector AU. Dylai cadw'r brand GO Wales ar gyfer gweithgarwch gyda chyflogwyr fod o gymorth gyda hyn gan ei fod yn darparu hunaniaeth genedlaethol i staff ei defnyddio wrth gysylltu â chyflogwyr.

Y Gymraeg

C7: *Pa effeithiau cadarnhaol neu negyddol y gallai'r cynigion eu cael ar y canlynol:*

- a) *cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a*
- b) *peidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg*

36. Nodwyd effeithiau cadarnhaol yn bennaf yn yr ymatebion, megis y cyfle i gynnig mwy o gyfleoedd cyfrwng Cymraeg i gyflogwyr, os oedd ar gyflogwyr eu hangen. Pwysleisiodd ymatebwyr y byddai'r holl weithgarwch yn cael ei gyflawni'n unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

37. **Canlyniad:** Rydym yn disgwyl i'r holl ddarparwyr gysoni gweithgarwch â'r uchelgeisiau yn y strategaeth Cymraeg 2050, a byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr ddisgrifio yn eu Cynlluniau Cyflawni sut y byddant yn hybu ac yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws pob agwedd ar ddarparu.

C8: *A ellid newid y cynigion i gynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu i leihau'r effeithiau niweidiol ar y canlynol:*

- a) *cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a*
- b) *peidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?*

38. Roedd yr ymatebion yn cynnwys ystod o awgrymiadau ynglŷn â sut i gynyddu effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Roedd y rhain yn cynnwys defnyddio cyfran o'r cyllid i greu cyfleoedd profiad gwaith dwyieithog, gwreiddio'r defnydd o weithgareddau Cymraeg a dwyieithog fel sgiliau cyflogadwyedd allweddol, cynyddu'r cyllid ar gyfer darparwyr sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, a chynnwys myfyrwyr sy'n dymuno gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg yn y rhestr o nodweddion ar fyfyrwyr sydd o fewn y cwmpas ar gyfer cymorth.

39. **Canlyniad:** Mae'n ofynnol i'r holl ddarparwyr hybu'r defnydd o'r Gymraeg wrth gyflawni'r gweithgarwch hwn. Bydd hyn yn cynnwys ymateb i'r galw ymhlith cyflogwyr a, lle y bo'n briodol, annog cyflogwyr i ddeall budd dwyieithrwydd. Anogir darparwyr i ddefnyddio cyfran o'u cyllid i greu cyfleoedd profiad gwaith dwyieithog, gan ddibynnu ar y galw o blith cyflogwyr a myfyrwyr. Cyfrifoldeb darparwyr yw penderfynu pa fyfyrwyr sydd o fewn y cwmpas ar gyfer cymorth (gan gyfeirio at y disgwyliadau a nodir ym mharagraffau 10 – 15), ond rhaid i'r holl fyfyrwyr a gefnogir fod yn rhai y mae arnynt angen y cymorth ychwanegol (h.y. yr ystyrir eu

bod bellaf o'r farchnad lafur). Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr nodi nifer y cyfleoedd a ddarparwyd yn Gymraeg yn yr Adroddiadau Monitro.

Asesiad o'r Effaith a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

C9: A yw'r newidiadau a gynigir yn cael unrhyw effaith gadarnhaol neu negyddol, neu'n creu canlyniadau anfwriadol, o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth a'r saith nod llesiant, yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)?

40. Roedd yr holl ymatebwyr yn cytuno y byddai'r cyllid hwn yn cyfrannu mewn modd cadarnhaol at gydraddoldeb ac amrywiaeth, ac y byddai'r gweithgarwch yn gyson iawn â'r saith nod llesiant, yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Yr unig effaith negyddol a nodwyd gan ychydig o ymatebwyr oedd hyd cychwynnol y cyllid.
41. **Canlyniad:** Gan nad awgrymir unrhyw newidiadau i'r dull a gynigir, dylai nod y cyllid a'r dull fod yn gyson â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Cyfeirir at hyd y cyllid ym mharagraff 32.
42. Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr gynnal Asesiad Effaith ar eu gweithgarwch arfaethedig. Er nad ydym yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno copi o'r Asesiad Effaith, bydd arnom eisiau deall sut y mae deilliannau'r Asesiad Effaith wedi trefnu cynnig pob darparwr fel rhan o'r Cynllun Cyflawni.

AU mewn AB

43. Yn unol â'n safbwynt rheoleiddiol, rydym yn disgwyl i SAU gymryd cyfrifoldeb am drefnu bod y cymorth hwn ar gael i'w myfyrwyr breiniol. Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i SAU ddisgrifio sut y byddant yn gwneud hyn yn eu Cynlluniau Cyflawni, ac yn disgwyl iddynt nodi nifer y myfyrwyr breiniol a gefnogwyd yn yr Adroddiad Monitro.
44. Fel a ddisgrifiwyd ym mharagraff 26, rydym wedi ailystyried ein dull o ymdrin â myfyrwyr AU mewn AB a gyllidir yn uniongyrchol ac rydym yn gweithio gyda'r colegau AB a gyllidir yn uniongyrchol i fwrw ymlaen â hyn. Fodd bynnag, rydym yn cadarnhau ein bod yn disgwyl i brifysgolion rannu eu harbenigedd mewn cyflawni deilliannau tebyg ar raglen [GO Wales: Cyflawni drwy Brofiad Gwaith](#) gyda'r SAB a gyllidir yn uniongyrchol i helpu i drefnu'r ddarpariaeth hon ar gyfer eu myfyrwyr AU a gyllidir yn uniongyrchol.

Taliadau, monitro ac adrodd

45. Bydd yn ofynnol i bob prifysgol gyflwyno Cynllun Cyflawni erbyn **9 Medi 2022**. Mae'r templed ar gyfer y Cynllun Cyflawni yn **Atodiad B** a dylid ei gyflwyno trwy'r e-bost i Lisa Barry, lisa.barry@hefcw.ac.uk ar ffurf ffeil Word. Byddwn yn darparu

templed amgen ar gyfer y Cynllun Cyflawni i'r colegau AB a gyllidir yn uniongyrchol ar gyfer y flwyddyn gyllido gyntaf.

46. Ar ôl cymeradwyo'r Cynllun Cyflawni, bydd CCAUC yn anfon cadarnhad o'r cyllid a fydd yn nodi'r cyllid a ddyrennir a'r amodau cysylltiedig. Bydd taliadau'n cael eu gwneud fel a nodir yn y cadarnhad o gyllid ac fel a nodir yn yr amserlen ym mharagraff 45, gydag unrhyw newidiadau i broffil y taliadau'n amodol ar gytundeb gan CCAUC.
47. Bydd y taliad cyntaf yn cynnwys 50% o gyfanswm y dyraniad a bydd yn cael ei dalu i ddarparwyr ar ôl cymeradwyo eu Cynllun Cyflawni.
48. Bydd yn ofynnol cyflwyno Adroddiad Monitro ym mis Ebrill 2023 sy'n cynnwys gwybodaeth am weithgarwch hyd at ddiwedd mis Mawrth 2023, gan nodi nifer y myfyrwyr (gan gynnwys myfyrwyr breiniol) a graddedigion a gefnogwyd, yn ogystal â'u nodweddion. Hefyd, bydd gofyn cyflwyno gwybodaeth inni am nifer y rhai a gefnogwyd sy'n ystyried bod eu cyflogadwyedd wedi gwella ar y cam hwnnw. Darparwyr sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr holl wybodaeth, gan gynnwys y data gofynnol, wedi'i chynnwys yn yr adroddiad fel bod sail gadarn i asesu effaith y cyllid a deilliannau'r myfyrwyr. Bydd y templed ar gyfer yr Adroddiad Monitro'n cael ei ddarparu gan CCAUC.
49. Bydd y 50% terfynol o'r dyraniad yn cael ei dalu ar ôl cymeradwyo'r Adroddiad Monitro, ar yr amod bod y darparwr wedi gwneud ymrwymiad ar gyfer o leiaf 75% o'r taliad cyntaf.
50. Bydd yn ofynnol cyflwyno Adroddiad Diwedd Blwyddyn ym mis Awst 2023 a hwnnw'n nodi sut y mae myfyrwyr wedi cael cymorth, nifer y myfyrwyr (a graddedigion) a gefnogwyd ac effaith y cyllid ar y cam hwnnw. Bydd yn ofynnol cyflwyno nifer o astudiaethau achos, yn gymesur â faint o weithgarwch a gyllidwyd. Mae angen i'r astudiaethau achos fod yn addas i'w cyhoeddi. Byddwn yn darparu templedi ar gyfer yr Adroddiad Diwedd Blwyddyn a'r Astudiaethau Achos.
51. Mae'n ofynnol i ddarparwyr gadarnhau gwariant gwirioneddol yn y cyfnod rhwng 1 Tachwedd 2022 a 31 Gorffennaf 2023 yn yr Adroddiad Diwedd Blwyddyn. Bydd unrhyw ddyraniad cyllidebol nad yw wedi cael ei wario (h.y. ei dalu) erbyn 31 Gorffennaf 2023 yn cael ei adennill. Ni fydd hyn yn effeithio ar ddyraniad y darparwr ar gyfer Blwyddyn Academaidd 23/24.

Amserlen

52. Caiff yr amserlen ar gyfer y cynllun gofynnol, adroddiadau a thaliadau ei chyflwyno isod:

Disgrifiad	Dyddiad
Terfyn amser ar gyfer cyflwyno'r Cynllun Cyflawni	9 Medi 2022

Talu 50% o gyfanswm y dyraniad	Ar ôl cymeradwyo'r Cynllun Cyflawni
Terfyn amser ar gyfer cyflwyno'r Adroddiad Monitro	14 Ebrill 2023
Talu'r 50% sy'n weddill o gyfanswm y dyraniad, ar yr amod bod ymrwymiad wedi'i wneud ar gyfer o leiaf 75% o'r dyraniad cyntaf	Ar ôl cymeradwyo'r Adroddiad Monitro
Terfyn amser ar gyfer cyflwyno'r Adroddiad Diwedd Blwyddyn ac Astudiaethau Achos	18 Awst 2023

Rhagor o wybodaeth / ymatebion i

53. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag Emma Mock (029 2085 9742; emma.mock@hefcw.ac.uk). Dylai darparwyr gyflwyno'u Cynlluniau Cyflawni i Lisa Barry, lisa.barry@hefcw.ac.uk erbyn **9 Medi 2022**.

Asesu effaith ein polisiau

54. Rydym wedi cynnal ymarfer sgrinio i asesu'r effaith er mwyn helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hybu cydraddoldeb. Fe wnaethom hefyd ystyried effaith polisiau ar y Gymraeg, a darpariaeth Gymraeg yn y sector AU yng Nghymru ac effeithiau posibl ar y nodau a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan gynnwys ein Hamcanion Llesiant. Cysylltwch ag equality@hefcw.ac.uk i gael rhagor o wybodaeth am asesiadau effaith.